“Ond rwyf fi’n dweud wrthych: carwch eich gelynion, a gweddïwch dros y rhai sy’n eich erlid;”
**(Mathew 5:44)**

Dyma un o ymadroddion mwyaf chwildroadol yr Arglwydd Iesu. Dyma sydd i nodweddu plant Duw a phobl Iesu, felly.

## Gwyrdroi’r Gyfraith

Yn yr adnod flaenorol mae Iesu’n dweud: **“Clywsoch fel y dywedwyd”** ac mae’n cyfeirio at ddysgeidiaeth boblogaidd ymhlith Iddewon ei gyfnod. Mae’n debyg bod rhai o’r ysgryifenyddion a’r Phariseaid yn dysgu eu fersiwn eu hunain o Gyfraith Duw.

Roedden nhw’n tynnu i ffwrdd ddarn o’r gorchymyn gwreiddiol, sef: **“yr wyt i garu dy gymydog *fel ti dy hun*.”** (Lef. 19:18). Byddai’r math o gariad dylai person ei weithredu at gymydog mewn canlyniad yn llai o lawer heb y cymal pwysig yna.

Roedden nhw hefyd yn ychwanegu at y Gyfraith y geiriau: **“a chasâ dy elyn”.** Roedd yr adnod wreiddiol yn Lefiticus yn dweud yn glir: **“Nid wyt i geisio dial ar un o’th bobl, na dal dig tuag ato.”** Dyma wyrdroi Gair Duw mewn ffordd ddifrifol iawn. Mae’n bwysig cofio rhybudd y Gair i beidio ag ychwanegu na thynnu dim oddi wrth yr Ysgrythur sanctaidd (Dat. 22:18-19).

Roedden nhw’n magu casineb, felly, rhwng Iddew a Chenedlddyn. Roedd yr elyniaeth rhwng Iddew a Samariad yn siŵr o gynyddu trwy’r ddysgeidiaeth yma. Hefyd roedd casineb rhwng Iddew ac Iddew. Roedd rhai yn ystyried y casglwr trethi yn elyn, ac roedd y dysgu gwyrdroëdig yma’n rhoi rhwydd hynt i’w gasáu.

## Cadarnhau’r Gyfraith

Er fod dysgeidiaeth Iesu’n newydd, mae’n amlwg ei fod yn cadarnhau ysbryd y Gyfraith a’i fod yn cyfleu meddylfryd Duw. Roedd y Gyfraith eisoes yn dysgu: caru cymydog fel yr hunan; peidio â dial; rhoi cymorth i elyn: **“Os gweli asyn y sawl sy’n dy gasáu yn crymu dan ei lwyth, paid â’i adael fel y mae, ond dos i estyn cymorth iddo”** (Ex. 23:5).

Cam weddol fach a naturiol oedd Iesu’n ei gymryd mewn gwirionedd wrth symud o’r ddysgeidiaeth i roi help i elyn at y neges i’w garu.

## Caru gelyn

Mae Iesu’n esbonio beth sy’n ymhlyg mewn caru gelyn wrth ddweud wrthym i weddïo drosto, ac mae fersiwn Luc yn ychwanegu: **“gwnewch ddaioni i’r**

**rhai sy'n eich casáu, bendithiwch y rhai sy'n eich melltithio"** (6:27-28) Gwelwn esiampl wych o weddïo dros elyn gyda Steffan yn dweud wrth gael ei labyddio: **"Arglwydd, paid â dal y pechod hwn yn eu herbyn"** (Act. 7:60) Mae Iesu'n ein dysgu i ymateb yn groes i'r ffordd mae'n gelynion yn ein trin ni. Dylem ateb casineb gyda daioni a chymwynasgarwch, a'r ymateb i felltith yw bendith.

## Plant Duw

Dyma un o nodweddion plant Duw, am ei fod yn un o nodweddion Duw. Dyw Iesu ddim yn dweud y gallwn ddod yn blant i Dduw trwy geisio caru gelyn. Mae'n dweud bod y sawl sydd wedi cael ei aileni i fod yn blentyn Duw â'r modd ganddo i garu gelyn trwy nerth yr Ysbryd sydd ar waith ynddo.

Mae Iesu'n cyfeirio at haelioni Duw fel Creawdwr. Yn ei ras cyffredinol mae'n peri i'r haul a'r glaw syrthio ar bawb yn ddiwahân. Mae Duw'n gwneud yn siŵr fod y ddaear yn cynhyrchu digon o fwyd i ddigoni poblogaeth y byd ddwywaith. Mae wedi gwneud cyfamod y tymhorau gyda Noa: **"Tra pery'r ddaear, ni pheidia pryd hau a medi, oerni a gwres, haf a gaeaf, dydd a nos"** (Gen. 8:22).

Gallem fynd ymhellach a chyfeirio at yr Efengyl. Dyma'r esiampl fwyaf o Dduw yn caru gelyn. Mae pechod yn elyniaeth ac yn gasineb yn ei erbyn, ond eto mae wedi'n caru gymaint nes anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau.

## Greddf naturiol

Does dim byd arbennig na duwiol am garu ffrind a chasáu gelyn; yn hytrach mae'n dod yn naturiol i'r pechadur llygredig. Felly, roedd dysgu hyn fel Gair Duw yn warthus. Roedd llawer o arweinwyr yn dirmygu'r casglwyr trethi, ond roedd y rheini'n caru eu ffrindiau hefyd. Gwelwn frawdoliaeth arbennig mewn gangiau creulon heddiw hyd yn oed.

## Perffaith ac aeddfed

Mae Iesu'n adleisio'r Gyfraith eto yn adnod 48: **"Yr wyt i fod yn ddi-fai gerbron yr Arglwydd dy Dduw"** (Deut.18:13). Dyma nod y Cristion, y sawl sydd yn newynu ac yn sychedu am gyfiawnder. Dyma hiraeth plentyn Duw, i fod yn debyg i'w Dad nefol. Ynddo Ef mae'r cariad perffaith yr ydym yn anelu ato.

Gall y gair a gyfieithir 'perffaith' olygu aeddfed hefyd. Mae'n natur amrwd, anaeddfed yn gallu caru rhai sy'n dda neu'n agos atom a chasáu eraill, ond mae angen gras Duw a'i Ysbryd Glân i'n haeddfedu i fod yn blant llawn dŵf sydd yn dechrau dangos y cariad dwyfol at elyn.